25.08.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Bywyd prysur y ffermwr aml-dalentog Aneurin Jones

Dros y blynyddoedd mae ffermwyr wedi gorfod datblygu eu sgiliau er mwyn sicrhau llwyddiant eu ffermydd yn erbyn pob her mae'r byd amaethyddol modern yn taflu atynt.

Nos Lun ar **Cefn Gwlad** ar S4C rydym yn cwrdd ag un o'r rheini sef Aneurin Jones - contractwr amaethyddol medrus sydd yn gallu gwneud tipyn bach o bopeth ac sydd hefyd yn ffermio defaid ar ei fferm deuluol, Cefntelych, Pumsaint gyda'i wraig Heulwen a'u merch Angharad.

"Calcho, fertilizo, hadau, drilo, seilej, beilo, tail, codi siediau yn y gaeaf a thorri perthi, reparo, weldo ... bydd e'n rhwyddach i ddweud be' dwi ddim yn neud rili!" meddai Aneurin.

Ond mae beth mae Aneurin yn llwyddo gwneud yn agoriad llygaid go iawn, achos rhyw chwe mlynedd yn ôl, fe gollodd ei law mewn damwain gydag un o'i beiriannau amaethyddol.

Cafodd Aneurin bum llawdriniaeth mewn mis a hanner yn ysbyty Morriston yn Abertawe. Wedyn roedd rhaid iddo gael *skin graft* i roi dros yr anaf cyn cael mwy o lawdriniaethau pedair mlynedd yn ôl er mwyn tacluso'r graith.

Ond roedd Aneurin yn benderfynol o fynd yn ôl i'r gwaith cyn gynted â phosib, cwta chwe wythnos ar ôl y ddamwain.

"Roedd e'n eitha' caled - des i nôl ac es i syth mewn i'r sied i weld hi (sef y peiriant achosodd y ddamwain). Es i nôl arni - oni eisiau gwybod bo' fi'n gallu neud e yn barod ar gyfer y flwyddyn nesa'," meddai Aneurin.

"Bydde fe wedi bod yn amser hir i aros a ddim yn gwybod os gallen i ddreifio neu beidio. Des i ben 'da fe - odd e'n eitha' poenus ond oni moyn neud y peth. Dyw e ddim wedi stopio fi."

Nac ydy wir - mae Aneurin yn fwy prysur nac erioed.

"Pan oni'n ifanc odd dim diddordeb mewn ffermio 'da fi o gwbl. Tractors, tractors, tractors - 'na gyd oni moyn neud ac wedyn des i i *certain* oedran a ti'n meddwl - pam lai?" meddai Aneurin.

"Gweithiodd Mam a Dad yn galed iawn i gadw'r lle. Amser prynodd Dad y lle oedd dim un gât ar y fferm. Fi wedi colli Mam a Dad nawr ond dwi'n gobeithio bo' nhw'n edrych lawr a meddwl 'gwd job'."

Ond er ei fod yn gweithio'n galed mae Aneurin yn hoffi ymlacio gyda'i deulu a chwarae rygbi - er dyw e heb chwarae ers iddo anafu ei law.

Yn y rhaglen mae Aneurin yn dychwelyd i'r cae rygbi am y tro cyntaf ers y ddamwain er mwyn codi arian i elusen canser – achos sy'n agos iawn i'w galon.

Gallwch glywed mwy am hanes Aneurin a'i deulu ar **Cefn Gwlad**, nos Lun 5 Medi ar S4C.

**Cefn Gwlad**
**Nos Lun 5 Medi 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Slam Media ar gyfer S4C**

25.08.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Life is busy for multi-skilled farmer Aneurin Jones

Over the years, farmers have had to develop their skills in order to ensure the success of their farms in the face of all sorts of challenges thrown at them by the modern world of agriculture.

On **Cefn Gwlad** on S4C this Monday, we meet one of these farmers – Aneurin Jones a very capable agricultural contractor who can do a bit of everything and who also farms sheep at his family farm Cefntelych, Pumsaint with his wife Heulwen and their daughter Angharad.

"Liming, fertilizing, seeds, silage, baling, building sheds in the winter and cutting hedges, repairing, welding ... It would be easier to say what I don't do really!" said Aneurin.

But what Aneurin is able to do is quite an eye-opener, because some six years ago he lost his hand in an accident with one of his agricultural machines.

Aneurin had five operations in a month and a half in Morriston hospital in Swansea. Then he had to have a skin graft to put over the injury before a further operation four years ago in order to tidy up the scar.

But Aneurin was determined to get back to work as soon as possible just six weeks after the accident.

"It was quite hard – I came home and went straight into the shed to see her (the machine that caused the accident). I got back on her – I wanted to know that I could do it, ready for the next year," said Aneurin.

"It would have been a long time to wait not knowing if I could drive or not. I managed to do it – it was painful but I wanted to do it. It hasn't stopped me."

No, it has not – Aneurin is busier than ever.

"When I was young, I didn't have any interest in farming at all. Tractors, tractors, tractors – that's all I wanted to do but then I reached a certain age and I thought – why not?", said Aneurin.

"Mam and Dad worked really hard to look after the place. When Dad first bought Cefntelych there wasn't a single gate on the farm. I've lost Mam and Dad now but I hope they're looking down on me and thinking 'good job'."

Although Aneurin works hard, he also likes to spend time relaxing with the family and playing rugby – although he hasn't played since losing his hand.

In this programme Aneurin returns to the rugby field for the first time since the accident in order to raise money for a cancer charity – a cause that's very close to his heart.

Hear more about Aneurin and his family on **Cefn Gwlad**, Monday 5 September on S4C.

**Cefn Gwlad**
**Monday 5 September 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Slam Media production for S4C**